# Sut i Wneud Cais am Gyllid Myfyrwyr AU Amser Llawn 2022/23

Mae cyllid (Benthyciadau a Grantiau) ar gael i dalu cost eich dysgu a'ch costau byw.

Fe wnaeth rheolau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru newid yn 18/19. Bydd rhaid i fyfyrwyr wneud cais am y canlynol:

- Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gyfer cost lawn eich cwrs (fesul blwyddyn, a delir yn uniongyrchol i'r Brifysgol)
- Benthyciad Cynhaliaeth / Grant Dysgu Llywodraeth Cymru – i helpu gyda'ch costau byw, mae'n cynnwys benthyciadau a grantiau, yn dibynnu ar eich amgylchiadau, hyd at uchafswm y lwfans.

Mae uchafswm y cymorth cynhaliaeth sydd ar gael yn gyfuniad o grantiau a benthyciadau. Trothwyon 22/23 yw:

- Myfyrwyr sy'n byw oddi cartref – uchafswm o £10,710.
- Myfyrwyr sy'n byw gartref – uchafswm o £9,095

Mae'r holl fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yn cael **Grant Cynhaliaeth** £1,000 o leiaf, sy'n gallu cynyddu hyd at £8,100 yn dibynnu ar incwm eich cartref ac a ydych yn byw yng nghartref y teulu. Gallwch chi ychwanegu at hyn gyda **Benthyciad Cynhaliaeth**, sydd ar gael hyd at yr uchafswm (uchod).

Bydd lle rydych yn byw a'ch statws yn y DU yn pennu pa gyllid myfyriwr sydd ar gael i chi. Fel rheol, bydd angen i chi fod yn ddinesydd y DU, bod â statws preswylydd sefydlog ac wedi byw yn y DU am o leiaf dair blynedd er mwyn cael cyllid myfyriwr.

Mae manylion i'w gweld yn https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/darganfod-cyllid-myfyrwyr/

**Ad-dalu benthyciadau** – unwaith eich bod yn ennill £27,295 yn y mis Ebrill ar ôl i chi adael eich cwrs, drwy'r system dreth (cynllun Talu wrth Ennill, Hunanasesu). Gall y swm hwn newid bob blwyddyn dreth.

Nid oes rhaid ad-dalu'r grant cynhaliaeth.

**Grantiau Cymorth Arbennig** – mae'r rhain wedi disodli rhai neu holl Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer myfyrwyr mewn amgylchiadau penodol. Os ydynt yn gymwys, gall myfyrwyr gael y £5,161 cyntaf fel Grant Cymorth Arbennig. Bydd unrhyw beth dros y swm hwn yn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd myfyrwyr sy'n ennill yr incwm isaf yn gallu cael arian ychwanegol.

Mae cyllid grant arall ar gael hefyd, yn dibynnu ar eich amgylchiadau, fel Lwfans i Fyfyrwyr Anabl a Grantiau Oedolion Dibynnol. Mae'r grantiau hyn yn cael eu talu i fyfyrwyr cymwys yn ogystal â'r prif gyllid myfyrwyr ac fel arfer nid oes rhaid eu had-dalu.

Mae angen i chi wneud cais un uniongyrchol ar gyfer y cyllid ar-lein, i'ch helpu gyda chostau'r cwrs rydych chi wedi gwneud cais amdano. Fel arfer, gallwch chi wneud cais o fis Mawrth. I fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru, ewch i

www.**cyllidmyfyrwyrcymru**.co.uk

Bydd rhaid i chi **greu cyfrif i chi'ch hunan**, ac yna dechrau'ch cais ar-lein ar gyfer 2022/23. Cadwch gofnod o'ch Cyfeirnod Cwsmer, a'ch cyfrinair, ac ateb cyfrinachol (ar wahân). Bydd angen y rhain arnoch wrth fewngofnodi i'ch cyfrif.

Darllenwch y canllawiau sydd ar gael ar y wefan yn ofalus. Bydd angen arnoch eich rhif pasbort (os oes un gennych), eich rhif Yswiriant Gwladol, a'ch manylion Banc er mwyn cwblhau'ch cais.


**Mae'r cyrsiau a ddarparwn yn bennaf wedi'u breinio gan ein Prifysgolion partner; dylech ddefnyddio'r tabl isod i sicrhau eich bod yn dewis y Brifysgol bartner gywir wrth wneud eich cais.**

| **Teitl** | **Dewis y Brifysgol / Coleg** | **Cod UCAS** | **Cymhwyster a Math** | **Ffi Myfyrwyr Blwyddyn 1af** | **Ffi Myfyrwyr 2il Flwyddyn** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrifiaduro Cymhwysol | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | I358 | HND | £9,000 | £9,000 |
| Busnes a Chyfrifeg | Prifysgol De Cymru | NN41 | HND | £7,500 | £7,500 |
| Rheolaeth Busnes (Cyfrifeg) | Prifysgol De Cymru | N79A | Gradd | £9,000 | Amherthnasol |
| Rheolaeth Busnes (Marchnata) | Prifysgol De Cymru | N79M | Gradd | £9,000 | Amherthnasol |
| Cyfiawnder Troseddol | Prifysgol De Cymru | LM3M | Gradd Sylfaen | £7,500 | £7,500 |
| Ymarfer Datblygu Plentyndod | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 5G12 | Gradd Sylfaen | £9,000 | £9,000 |
| Peirianneg Drydanol / Electronig | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 2H99 | HND | £9,000 | £9,000 |
| Rheoli Digwyddiadau | Prifysgol Swydd Gaerloyw | N823 | Gradd Sylfaen | £7,500 | £7,500 |
| Ffasiwn a Dylunio Tecstilau | Prifysgol Swydd Gaerloyw | W231 | Gradd Sylfaen | £7,500 | £7,500 |
| Peirianneg Fecanyddol | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 8N2G | HND | £9,000 | £9,000 |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu a Rheoli Chwaraeon | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | S85Q | Gradd Sylfaen | £9,000 | £9,000 |
| Effeithiau Gweledol a Graffeg Symudol | Prifysgol De Cymru | VE28 | Gradd Sylfaen | £7,500 | £7,500 |

## Rhoi Gwybodaeth am y Coleg a'r Cwrs

Rhowch enw'r Brifysgol / Coleg (fel y dangosir uchod)




**Dewiswch o'r cyrsiau a restrwyd, gwyliwch am Goleg Gŵyr, Coleg Gŵyr Abertawe, neu CGA yn nheitl y cwrs, neu teipiwch y rhif UCAS (fel uchod), a dewiswch pan fydd y cwrs yn ymddangos (bydd y cwrs yn troi'n felyn ar ôl ei dderbyn)**




*Parhau â'ch Cais*

Cadarnhewch y Ffi Dysgu (fel y dangosir uchod)

**Ffioedd** – Mae ein ffioedd yn cael eu gosod gan y Brifysgol sy'n breinio'r cwrs i ni, ac maent wedi'u dangos uchod. Defnyddiwch y ffigurau hyn i ateb y cwestiynau ynghylch eich ffioedd. **Bydd rhaid i fyfyrwyr y Flwyddyn Gyntaf dalu neu gael benthyciad ffioedd dysgu am y swm llawn**. Fe welwch y ffigur hwn ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.


Trwy ganiatáu i'r Brifysgol / Coleg ddiweddaru'r wybodaeth am y benthyciad ffioedd dysgu ni fydd rhaid i chi addasu'ch cais yn nes ymlaen.

*Parhau â'ch Cais*

Gwnewch gais am unrhyw Grant Cynhaliaeth, Benthyciad Cynhaliaeth ac unrhyw gymorth arall yr hoffech ei gael.

**Pan fyddwch wedi gorffen eich cais, bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn gohebu â chi drwy e-bost a llythyr. Gwyliwch am yr e-byst - byddan nhw'n dweud beth sy'n rhaid i chi ei wneud nesaf, a pha dystiolaeth sy'n rhaid i chi ei darparu. Gwnewch gofnod o'ch Cyfeirnod Cwsmer.**

Gallwch gyrchu'ch cais ar unrhyw adeg trwy fewngofnodi i wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru. **Os ydych eisoes wedi gwneud cais am gyllid, ond nid oeddech yn gallu atodi Coleg neu Gwrs, dylech fewngofnodi eto, a diweddaru'ch manylion Coleg a Chwrs, i osgoi problemau gyda'ch taliadau.**




**Trefniadau ar gyfer Cofrestru gyda ni**

Os dewiswch gofrestru gyda ni, byddwn yn rhoi dyddiad i chi wneud hynny, a rhoi manylion yr hyn sy'n rhaid i chi ddod gyda chi.

Bydd hyn yn cynnwys **taflen Cyngor Tâl y Brifysgol neu'r Coleg** (y bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn anfon atoch). Bydd angen y ffurflen hon arnom i gadarnhau gyda Chyllid Myfyrwyr Cymru (drwy'r Brifysgol) eich bod wedi cofrestru gyda ni, ac yn dod. Yna bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn rhyddhau'ch ffioedd i'r Brifysgol/Coleg a'ch benthyciadau/grantiau cynhaliaeth i chi. Os nad yw hon ar gael pan gofrestrwch, dewch â hi i'r Swyddfa MIS, yn y Ganolfan AU er mwyn i ni ei chopïo.

**Trefniadau ar gyfer Cofrestru gyda'r Brifysgol Freinio**

Byddwn yn dweud wrthych os, pryd a sut mae'n rhaid i chi wneud hyn.

**Talu Ffioedd**

Os yw'ch benthyciad ffioedd dysgu wedi cael ei gymeradwyo, ac os ydych wedi dewis ar eich cais am gyllid myfyrwyr bod ffioedd yn cael eu talu yn uniongyrchol i'r Coleg, ni fyddwch yn derbyn anfoneb.

Os ydych yn dewis bod y ffioedd dysgu yn cael eu talu'n uniongyrchol i chi'ch hun neu os ydych yn hunanariannu, bydd y Coleg yn anfon anfoneb atoch am y ffioedd llawn.

Bydd y myfyriwr yn talu unrhyw ffioedd sy'n weddill yn llawn a gellir eu talu'n llawn ar ôl derbyn yr anfoneb neu mewn rhandaliadau cyfartal dros y tri thymor (yn daladwy erbyn 1 Rhagfyr, 1 Chwefror a 1 Ebrill).

**Bwrsarïau**

Mae bwrsarïau o £1,000 yn daladwy ar gyfer yr holl gyrsiau ac eithrio'r rhai a farciwyd gyda *. Bydd y bwrsari'n cael ei dalu mewn dau randaliad o £500 yn ystod hanner tymor Chwefror ac ar ddiwedd mis Mai. Telir y bwrsari yn amodol ar y canlynol:

Tâl Chwefror

- 70% Presenoldeb

- Cyflwyno asesiadau erbyn y dyddiad priodol

Tâl Mai

- Cadarnhad o ennill y Dyfarniad, neu
- Gadarnhad o gyflawniad y gofynion i symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf
- Mae'r ffioedd diweddar wedi'u talu

Mae bwrsarïau o £500 ar gael ar y cyrsiau a farciwyd gyda *

**Os oes rhaid i chi adael eich cwrs**

Byddwch yn gymwys i gael y ffi dysgu ar gyfer yr holl dymhorau rydych yn gofrestredig gyda ni. Os oes rhaid i chi dynnu'n ôl o'ch cwrs mae'n bwysig iawn eich bod yn dweud wrthym yn syth.

Telir ffioedd dysgu gan Gyllid Myfyrwyr mewn tri rhandaliad: 25% yn nhymor 1; 25% yn nhymor 2 a'r 50% sy'n weddill yn nhymor 3.

Os byddwch yn tynnu'n ôl o'ch cwrs yn ystod rhan o'r tymor, rydych yn atebol am y ffi ar gyfer y tymor hwnnw. Ni fydd Cyllid Myfyrwyr yn talu unrhyw ffi dysgu ar ôl i chi dynnu'n ôl o gwrs.

Os byddwch yn tynnu'n ôl mae'r ffioedd canlynol yn daladwy:

| Tymor | Ffi Daladwy |
|---|---|
| Tynnu'n ôl yn ystod tymor 1 | 25% |
| Tynnu'n ôl yn ystod tymor 2 | 50% |
| Tynnu'n ôl yn ystod tymor 3 | 100% |

Sylwch y gallai hyn amrywio ychydig yn ôl y partner Prifysgol felly gwnewch yn siŵr cyn cofrestru eich bod yn deall yn llawn y costau posibl fydd yn deillio o dynnu'n ôl o'ch cwrs.

**Os oes cwestiynau gennych:**

Ymholiadau gyda'ch cais am gwrs, a dyddiadau cofrestru – Bethan Hughes 01792 284098 bethan.hughes@gcs.ac.uk

Ymholiadau gyda'ch cais cychwynnol am gyllid – Cyllid Myfyrwyr Cymru – 0300 200 4050, gallwch edrych drwy'r canllawiau hefyd a gynhyrchir gan Gyllid Myfyrwyr Cymru ar eu gwefan.

- Problemau'n cadarnhau'ch cwrs – mewngofnodwch eto i'ch cyfrif, a gwirio bod y Brifysgol, a'r cwrs cywir wedi'u hatodi i'ch cofnod (gweler y tabl uchod), rhaid i chi wneud hyn – ni all Cyllid Myfyrwyr Cymru wneud hyn i chi dros y ffôn.
- Os ydych am i'r Coleg gysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru ar eich rhan, rhaid i chi gysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru a rhoi caniatâd i ni wneud hynny. Dyma'r manylion: http://www.studentfinancewales.co.uk/contact/consent-to-share.aspx#.VXcTTs9VhBc.

Ymholiadau ynghylch eich cais am gyllid, cadarnhad o bresenoldeb a thaliadau benthyciad **ar ôl cofrestru** – ffoniwch yr Adran MIS ar 01792 284005

Ymholiadau ynghylch eich Anfoneb neu'ch Bwrsari – ffoniwch yr